

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 1af o Hydref 2020.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd),- Prenteg, Edward Evans - Bryncir, Huw Pritchard, Delyth Evans - Pentrefelin, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys, Megan Lloyd Williams, Amanda N Owen, Dylan Pritchard, John Jones, Dafydd Thomas, Gwilym Evans, Richard Parry, Manon Jones Evans, Clifford Williams, Iddon Edwards. Anfonwyd cofion at Amanda Noutch Owen ac at Anwen Humphreys sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Nid oedd un rhan o dair o'r aelodau yn bresennol, felly gwnaethpwyd argymhellion ar y materion i'w trafod.

- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - neb.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - 3/09/20. Gohirio tan y cyfarfod nesaf.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Pentrefelin - gosod golau stryd ar y pafin ar ôl mynd heibio Plas Gwyn i gyfeiriad Criccieth at Fynydd Du. Derbyniwyd ateb gan Reolwr Gwasanaethau Goleuo, Cyngor Gwynedd, yn datgan nad oes cyllid ar gael i wneud hyn.

Treflys - coed heb ei dorri. Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt gysylltu gydag Ystâd y Wern. Heb dderbyn ateb.

Hen safle Bwrdd Dŵr Cwmystradllyn Swyddog o'r Bwrdd Dŵr am ymweld â'r safle gyda Megan Lloyd Williams i drafod pa waith sydd angen ei wneud ar y safle.

Bin ysbwriel wrth Llyn Cwmystradllyn - Bwrdd Dŵr sy'n gyfrifol am hwn.

Prenteg - arwyddion cau ffordd Derbyniwyd ateb gan Adran Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd y byddai'r Uwch Beiriannydd yn ymchwilio i'r mater.

Bryncir safle pebyll/carafanau ar Fferm Penllystyn Derbyniwyd ateb gan Wasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedau Cyngor Gwynedd yn egluro'r broses trwyddedu.

O dan y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936, nid oes angen trwydded ar gyfer safle pebyll sydd yn cael ei redeg am 28 diwrnod yn unig. Bydd angen trwydded safle pan fydd y safle wedi bod yn agored am 42 diwrnod. Nid yw'n bosib cael trwydded heb fod caniatâd cynllunio yn bodoli.

Y safle dan sylw wedi bod yn agored am 42 diwrnod. Clerc i holi'r Adran Gynllunio os oes caniatâd cynllunio wedi cael ei roi i'r safle.

7 **Mynwentydd**

Ffordd Mynwent Prenteg - Derbyniwyd cwyn gan un o'r trigolion lleol ynglŷn â chyflwr y ffordd. Penderfynwyd y byddai 3 o'r Cynghorwyr yn ymweld â'r ffordd i gynnal arolwg o'r cyflwr.

Maes Parcio Mynwent Prenteg - Canghennau wedi disgyn. Cynghorwyr sy'n ymweld â'r ffordd i edrych pa waith sydd angen ei wneud.

Prosiect Mynwentydd Byw Eryri - derbyniwyd mwy o wybodaeth am y prosiect. Argymhellwyd cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol i drefnu ymweliad â'r Fynwent gyda Swyddog Bioamrywiaeth y Parc.

Llwybrau Mynwent Bethel - derbyniwyd 3 pris am roi chwynladdwr ar y llwybrau. Argymhellwyd derbyn y pris o £25 am wneud y gwaith.

Mynwent Bethel - gwair tu allan y brif fynedfa angen ei dorri. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Mainc Mynwent Bethel - angen gwirio ei gyflwr. Clerc i gysylltu gyda saer coed.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr rhwng Tyn Ffridd a Ffridd Newydd - Ers cysylltu gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd i holi pa bryd fydd polyn newydd i hongian y giât yn cael ei osod, mae'r postyn ar yr ail giât wedi pydru. Ymwelodd Arolygwr Hawliau Tramwy â'r safle ac mae wedi trefnu i gontractwr adnewyddu'r pyst.

9 Adroddiad Pentrefi

Garndolbenmaen

Biniau glas yn cael ei gadael tu allan yn Cambrian Terrace. Clerc i gysylltu gyda Thîm Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd.

10 Cyngor Gwynedd - ymgynghoriad dileu ffonau talu cyhoeddus

Cwm Pennant a Chwmystradllyn - argymhellwyd gwrthwynebu dileu'r ffonau cyhoeddus ar y sail fod signal ffonau symudol yn wael a bod yr ardaloedd yn boblogaidd gyda cherddwyr a physgotwyr.

11 Cyngor Tref Nefyn - mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol

Mewn cyfarfod o Gyngor Tref Nefyn, pasiwyd cynnig yn datgan cefnogaeth i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Gofynnwyd am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned. Argymhellwyd cefnogi'r cynnig.

12 Ffordd Prenteg - Cwmystradllyn

Adroddwyd fod rhan o'r gwaith wedi ei gwblhau. Clerc i gysylltu gydag Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i gael diweddariad ar y sefyllfa.

13 Gohebiaeth

Llythyrau Cyngor Gwynedd -

Gohebiaeth ychwanegol

- a Parc Cenedlaethol Eryri - ymgynghoriad cyhoeddus Canllaw Cynllunio Drafft Atodol.
- b Unllais Cymru - Adnoddau am ddim i helpu mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn eich cymunedau.
- c Swyddfa Comisiynydd Heddlu - Cynhadledd ar lein 2/11/20. Cynllun Peilot Triniaeth â Chymorth Heroin yng Ngogledd Cymru.

- ch Unllais Cymru - Bwletin Newyddion - Cyfarfodydd Wyneb i Wyneb, Cyfraddau Cyflog Newydd i Glercod, Hyfforddiant.
- d GIG Cymru - Gofalwch am eich iechyd meddwl.
Ychwanegwyd
- dd Trawslink Cymru - Ail agor rheilffordd Afonwen i Fangor - 6.30 29/10/20.
JJ am fynychu. Holi RP os yw am fynychu.

14 **Cynllunio**

Rhestrau - 13/9, 16/9/2,

Ceisiadau Cynllunio - dim.

15 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 294.13 (ad-daliad o 1/4/20)
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 73.53
<u>Ychwanegwyd</u>	
Aled Jones	= £ 195.00

Derbyniadau

Henry Jones Cyf = £110.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.05 Cyfredol £22,210.15

16 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Cyngor Tref Nefyn.
- Dileu ffonau talu cyhoeddus.
- Prosiect Mynwentydd Byw.

Gwefan - Cofnodion mis Medi.